



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cofrestr Buddiannau ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg a Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg

1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Rhan 8, Pennod 1, Adran 134

- 1.1 Mae Adran 134 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i bob 'deiliad swydd berthnasol' h.y. Comisiynydd y Gymraeg a Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg i greu a chynnal cofrestr buddiannau. Rhaid i gofrestr buddiannau deiliad swydd perthnasol gynnwyd ei holl fuddiannau cofrestradwy.
- 1.2 Mae adrannau 135 i 137 o'r Mesur yn gwneud darpariaeth gysylltiedig ynghylch cyhoeddi cofrestrau buddiannau, gwrthdrawiadau buddiannau, a dilysrwydd gweithredoedd deiliad swydd perthnasol.
- 1.3 Buddiant yw buddiant o unrhyw fath, gan gynnwys buddiannau ariannol, a phob gweithgaredd a swydd, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt. Mae Gweinidogion Cymru wedi pennu pa fuddiannau sy'n fuddiannau cofrestradwy, drwy reoliadau. Mae'r rheoliadau hyn yn gyson â'r awydd i'r Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd weithredu mewn ffordd dryloyw, atebol a diduedd, gan gadw at y safonau uchaf o briodoldeb wrth reoli eu busnes.
- 1.4 Mae buddiannau cofrestradwy yn cynnwys buddiannau personau y mae cysylltiad rhyngddynt a deiliad swyddi perthnasol (boed yn gysylltiad teuluol, ariannol neu o unrhyw fath). Y bwriad yw sicrhau ei bod yn ofynnol i'r Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd ddatgan yn gyhoeddus amgylchiadau lle y mae ganddynt hwy, neu lle y mae gan bartner neu blentyn y Comisiynydd neu'r Dirprwy Gomisiynydd, fuddiannau na ddylid deiliad swydd perthnasol arfer swyddogaethau mewn perthynas â hwy.
- 1.5 Mae gan y Comisiynydd bwerau rheoleiddiol i osod dyletswyddau ar bersonau neu gategoriâu o bersonau mewn perthynas â chydymffurfio â safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Bydd y Comisiynydd hefyd yn gallu ymchwilio i honiadau ynghylch methiant i gydymffurfio â safonau a bydd ganddo ystod o bwerau i gymryd camau gorfodi os bydd methiant i gydymffurfio â hwy; ymhlith y dewisiadau gorfodi posibl hyn y mae ei gwneud yn ofynnol i rywun baratoi cynllun gweithredu neu roi cost sifil iddo. O ystyried y pwerau hyn, bernir ei bod yn bwysig nad oes unrhyw ganfyddiad bod y Comisiynydd neu'r Dirprwy Gomisiynydd yn rhagfarnllyd mewn unrhyw ffordd, a bernir hefyd ei bod yn bwysig nad yw'n caniatáu i fuddiannau personol ddylanwadu ar y modd y mae'n cyflawni ei ddyletswyddau proffesiynol.
- 1.6 Ni all y Comisiynydd arfer swyddogaethau os oes buddiant wedi ei gofrestru. Mewn achos o'r fath, dirprwyir y swyddogaeth honno i'r Dirprwy Gomisiynydd neu i aelod arall o staff y Comisiynydd.
- 1.7 Lleolir y gofrestr ddwyieithog hon yn electronig ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. Mae copi caled o'r gofrestr i'w gweld yn swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yng Nghaerdydd.

2 Y Gofrestr Buddiannau

- 2.1 Mae'r Gofrestr Buddiannau i gael ei gwblhau gan Gomisiynydd y Gymraeg a'r Dirprwy Gomisiynydd . Mae'r rhain yn 'ddeiliad swydd berthnasol' at ddibenion y Gofrestr hon.
- 2.2 Er mwyn sicrhau llywodraethu corfforaethol priodol, ac atebolrwydd a thryloywder Comisiynydd y Gymraeg, mae'n ofynnol i bersonau perthnasol ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai effeithio ar gyflawni eu dyletswyddau fel rhan o dîm y Comisiynydd. Mae'n ofynnol i bersonau perthnasol gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, rhaid i unrhyw fuddiannau perthnasol gael eu datgan ar y Gofrestr Buddiannau.
- 2.3 Pwrpas y Gofrestr yw darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am fuddiannau perthnasol y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd. Gall y rhain fod yn fuddiannau personol neu fusnes a allai ddylanwadu ar eu barn, trafodaeth neu eu gweithrediad fel aelodau o dîm y Comisiynydd, neu a allai gael eu gweld gan aelod rhesymol o'r cyhoedd i wneud hynny.
- 2.4 Mae'n rhaid i bersonau perthnasol ystyried a oes angen iddynt ddatgelu cyswllt personol gyda phersonau neu gyrff y gallai aelodau'r cyhoedd feddwl yn rhesymol y gallai ddylanwadu ar eu barn.
- 2.5 Dylai unrhyw ddiddordeb gael ei ddatgan cyn dechrau trafod unrhyw eitem berthnasol ar agenda Tîm Rheoli neu gyfarfod y Pwyllgor Archwilio, neu wrth fynyachu unrhyw gyfarfod arall. Dylid nodi'r datganiad heb ystyried a yw'r buddiant eisoes wedi cael ei gofnodi yn y Gofrestr. Unwaith y bydd y diddordeb wedi cael ei ddatgan mewn cyfarfod, gall y Tîm neu'r Pwyllgor benderfynu:
 - caniatáu cyfranogiad llawn yr unigolyn wrth drafod yr eitem;
 - caniatáu i'r unigolyn gymryd rhan mewn trafodaethau, ond heb hawl i bleidleisio;
 - gofyn i'r unigolyn adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem ar yr agenda.
- 2.6 Lle bo ansicrwydd ynghylch a ddylai diddordeb arbennig gael ei ddatgan, dylid ceisio cyngor gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Lle bo cwyn am fethiant i ddatgelu buddiant perthnasol, bydd y gwyn yn cael ei gyfeirio at Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd cwyn am fethiant Comisiynydd y Gymraeg ei hunan i ddatgelu buddiant yn cael ei gyfeirio at y Prif Weinidog.
- 2.7 Mae'r Gofrestr Buddiannau yn fater o gofnod cyhoeddus. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. Bydd copiâu hefyd ar gael ar gais gan Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd y Gofrestr yn ffurfio rhan o Gynllun Cyhoeddi Comisiynydd y Gymraeg yn unol ag adran 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

2.8 Diweddarir y Gofrestr hon yn barhaus. Bydd yn cael ei diweddarau o fewn 4 wythnos i unrhyw fudd yn cael ei godi neu i'r deiliad fod yn ymwybodol o'r buddiant. Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn gyfrifol am sicrhau bod y gofrestr yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn.

3 Datganiadau Buddiannau (i'w cynnwys mewn Cofrestr Buddiannau)

Bydd gofyn i Gomisiynydd y Gymraeg a Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg ddefnyddio'r ffurflen yma i ddarparu gwybodaeth am unrhyw fuddiannau.

Enw: Aled Rhys Roberts

Teitl swydd: Comisiynydd y Gymraeg

1. Rhowch fanylion unrhyw swydd neu gyflogaeth a ddelir gan aelod o'ch teulu gyda pherson perthnasol (gweler nodyn esboniadol adran 4).

Dylech nodi pa aelod o'r teulu yw e.e. partner, teitl y swydd ac enw'r sefydliad.

Gwraig yn gweithio yng Ngholeg Cambria ar draws y gogledd ddwyrain fel Pennaeth Dwyieithrwydd a Chyfathrebu Corfforaethol

Brawd yng nghyfraith yn ddarlithydd ac yn Ddeon ym Mhrifysgol Aberystwyth

2. Rhowch fanylion unrhyw fuddiant sydd gennych chi neu aelod o'ch teulu mewn eiddo perthnasol h.y. tir neu eiddo deallusol y mae gennych fuddiant ynddo lle bo'r buddiant hwnnw wedi ei gaffael drwy arian a ddarparwyd gan Weinidogion Cymru.

Dim

3. Rhowch fanylion unrhyw gwmnïau neu gyrff eraill y mae gennych chi, naill ai ar ben eich hun neu gydag aelod o'r teulu, neu ar ran aelod o'r teulu, fuddiant llesiannol mewn cyfranddaliadau.

Cyn gyfarwyddwr efo Datrys Cyf (Cwmni Cysylltiadau Cyhoeddus cafodd ei ddileu yn 2018)

Cyfranddaliadau yn Standard Life Aberdeen

4. Rhowch fanylion unrhyw swyddi cyfarwyddwyr am dâl a ddelir gennych chi mewn unrhyw gwmni, gan gynnwys swyddi cyfarwyddwyr na thelir tâl iddynt

yn unigol ond lle telir tâl drwy gwmni arall yn yr un grŵp.

Cyfarwyddwr a Chadeirydd/Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Y Stiwt Cyf.
Rhosllannerchrugog, sydd yn derbyn grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac gan
Cyngor Wrecsam

Cyfarwyddwr ac Ymddiriedolwr Fforwm Anabledd Sir y Fflint

Ymddiriedolwr Prosiect Warws Wrecsam (ar gyfer pobl di-gartref ifainc)

5. Rhowch fanylion unrhyw gyflogaeth berthnasol - hynny yw, unrhyw gyflogaeth ble derbyniwyd tâl, swyddogaethau ayb a allai effeithio ar gyflawni eich dyletswyddau o fewn Comisiynydd y Gymraeg.

Enw'r sefydliad	Math o sefydliad	Swyddogaeth o fewn y sefydliad
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Awdurdod Lleol	Cynghorydd 1996-2011
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Awdurdod Lleol	Arweinydd y Cyngor 2005-2011

6. Rhowch fanylion unrhyw swyddogaethau gwirfoddol neu gyhoeddus a ddelir.

Ymgynghorydd ar Gynlluniau Addysg Gymraeg i Lywodraeth Cymru hyd at 15 Chwefror 2019

Aelod o Fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru hyd at 28 Mawrth 2019

Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gymraeg I D Hooson, Rhosllannerchrugog hyd at 28 Mawrth 2019

Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam hyd at 28 Mawrth 2019

Ysgrifennydd Capel Ebeneser, Rhosllannerchrugog

7. Rhowch fanylion unrhyw nawdd neu gymorth ariannol yr ydych yn ei dderbyn gan unrhyw sefydliad sy'n dod o fewn cylch cyfrifoldeb statudol Comisiynydd y Gymraeg.

Dau fab yn derbyn grant/benthyciad myfyrwyr oddi wrth Llywodraeth Cymru/ Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

8. Rhowch fanylion unrhyw weithgaredd gwleidyddol arwyddocaol yr ydych yn rhan ohono, er enghraifft, yn dal swydd mewn plaid wleidyddol neu sefyll fel ymgeisydd a enwebwyd ar gyfer plaid wleidyddol.

Yn aelod o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru hyd at Rhagfyr 2018 ac yn gyn-aelod Cynulliad (2011-2016) a Chynghorydd i'r plaid

9. Rhowch fanylion unrhyw fuddiannau perthnasol eraill sydd gennych chi, gan gynnwys buddiannau sylweddol aelodau agos o'r teulu, h.y. rhai a allai ddylanwadu ar eich barn, trafodaeth neu weithredu o fewn Comisiynydd y Gymraeg, neu a allai gael eu gweld gan aelod rhesymol o'r cyhoedd i wneud hynny.

Gwraig yn aelod o Fwrdd y Coleg Gymraeg Cenedlaethol ac yn Gyfarwyddwr Menter Iaith Fflint a Wrecsam.

10. Dylech nodi unrhyw ffrind agos sydd â diddordeb proffesiynol perthnasol i waith y Comisiynydd ac sydd yn debygol o ymddangos, i berson rhesymol, i fod yn gallu dylanwadu ar eich gwrthrychedd. Mae hyn yn golygu perthynas agos yn hytrach nag adnabyddiaeth yn unig.

Y cwestiwn i'w ystyried yw: A fyddai aelod o'r cyhoedd, o wybod yr holl ffeithiau, yn meddwl y bod penderfyniad yn, neu yn gallu cael ei ddylanwadu yn amhriodol oherwydd eich diddordeb chi, neu eich ffrindiau yn y mater?

Dim

Enw a dyddiad cwblhau

Enw :
Aled Roberts

Dyddiad: 13
Mawrth 2019

4 Nodyn Esboniadol

4.1 Ystyr “**deiliad swydd perthnasol**” yw y Comisiynydd a’r Dirprwy Gomisiynydd.

4.2 Mae’r Atodlen – Buddiannau Cofrestradwy: Rhan 1 – ‘Dehongli’ yn nodi mai

- ystyr “**aelod o deulu**” mewn perthynas â deiliad swydd perthnasol yw partner y deiliad swydd perthnasol ac unrhyw blentyn;
- ystyr “**eiddo perthnasol**” yw tir neu eiddo deallusol y mae gan y Comisiynydd fuddiant ynddo lle bo’r buddiant hwnnw wedi ei gaffael drwy arian a ddarparwyd gan Weinidogion Cymru dan baragraff 14 o Atodlen 1 i’r Mesur;
- ystyr “**Mesur**” yw Mesur y Gymraeg (Cymru)2011;
- ystyr “**partner**” yw priod, partner sifil neu un o gwpl boed hynny o’r un rhyw neu o’r rhyw arall sy’n byw gyda’i gilydd, er nad ydynt yn briod, ac sy’n trin ei gilydd fel dau briod;
- ystyr “**person perthnasol**” yw person sydd o fewn Atodlen 6 (Cyrrff cyhoeddus: safonau) neu 8 (Cyrrff eraill: safonau) i’r Mesur (boed hynny fel unigolion neu fel rhan o grŵp o bersonau); ac
- ystyr “**plentyn**” yw unrhyw berson sydd, pan gofrestrir y buddiant, naill ai yn -

(a) plentyn i’r deiliad swydd perthnasol;

(b) llysblentyn i’r deiliad swydd perthnasol drwy briodas neu bartneriaeth sifil;

(c) person sydd wedi ei fabwysiadu’n gyfreithiol gan ddeiliad swydd perthnasol;

(d) person sydd wedi ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu gyda’r deiliad swydd perthnasol;

neu

(e) person sy’n iau nag un ar bymtheng mlwydd oed, neu’n iau na phedair ar bymtheng mlwydd oed ac yn derbyn addysg amser –llawn, ac sydd am y chwe mis calendr blaenorol wedi cael cefnogaeth ariannol gan y deiliad swydd perthnasol.